



3D Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid:
e-bost: GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk

Eich Cyf.:

Ein Cyf.: EN010072

Dyddiad: 26 Awst 2016

Annwyl Syr/Fadam

Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd)¹ – Rheol 17 a Rheol 8(3)

Cais gan Snowdonia Pumped Hydro Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Cynllun Storio Pwmpiedig Glyn Rhonwy

Hysbysiad o gais am wybodaeth ychwanegol ac amrywio'r amserlen archwilio

Yng ngoleuni cynnwys sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Ymgeisydd a phartion â diddordeb hyd yma, rwyf wedi penderfynu gofyn i bartion perthnasol a enwyd ddarparu gwybodaeth ychwanegol i ymateb i gwestiynau y gofynnaf o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010. Ategir y cais hwn gan amrywiad i'r amserlen archwilio a wnaed o dan Reol 8(3).

Cais am wybodaeth ychwanegol

Gofynnir fy nghwestiynau er mwyn ceisio eglurhad neu wybodaeth ychwanegol am faterion a godwyd. Rwyf yn ceisio sicrhau bod digon o dystiolaeth i gefnogi argymhelliad a ystyriwyd yn drwyadl. Mae'r cwestiynau ar gael ar ein gwefan:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010072-001867>

Mae'n rhaid derbyn ymatebion i'r cwestiynau hyn erbyn **Terfyn Amser 9, sef 12 ganol dydd ar ddydd Llun 5 Medi 2016.**

Mae'n rhaid derbyn sylwadau ar yr ymatebion i'r cwestiynau hyn erbyn **Terfyn Amser 10, sef 12 ganol dydd ar ddydd Iau 8 Medi 2016.**

Amrywio'r amserlen archwilio

Yn dilyn yr amserlen archwilio ddiwygiedig a gynhwyswyd yn Atodiad A fy llythyr dyddiedig 7 Mehefin 2016 ('Ail gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio'), rwyf

¹ <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/103/contents/made>

wedi amrywio'r amserlen wedi hynny o dan Reol 8(3) ac mae hyn wedi'i gynnwys yn **Atodiad A** y llythyr hwn fel eitemau 19, 20 a 21.

Tynnaf eich sylw at **Derfyn Amser 9** sy'n rhoi cyfle i'r holl bartïon wneud sylwadau ar gynrychioliadau a dderbyniwyd erbyn **Terfyn Amser 8** ac, yn yr un modd, at **Derfyn Amser 10** sy'n rhoi cyfle i'r holl bartïon wneud sylwadau ar gynrychioliadau a dderbyniwyd erbyn **Terfyn Amser 9**. Dylai sylwadau gael eu cyflwyno mewn da bryd cyn terfynau amser er mwyn sicrhau archwiliad effeithlon, teg a didrafferth i'r holl bartïon.

Sylwer fy mod yn debygol o gau'r archwiliad yn fuan ar ôl Terfyn Amser 10.

Yn gywir

Stuart Cowperthwaite

Stuart Cowperthwaite
Yr Awdurdod Archwilio

Ceir rhoi cyngor ynglŷn â gwneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau am gais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallwch ddiybnu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a phroffesiynol eich hun fel y bo'r angen.

Bydd cofnod o'r cyngor a roddir yn cael ei gofnodi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Bydd preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall yn cael ei ddiogelu yn unol â'n Siarter Wybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.

Amserlen Archwilio Ddiwygiedig

| Eitem | Materion | Dyddiadau Priodol |
|-------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------|
| 19. | <p>Dyddiad Cau 9</p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i gais yr Awdurdod Archwilio am ragor o wybodaeth o dan Reol 17 yn y llythyr dyddiedig 26 Awst 2016 • Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach a dderbynnir gan yr Awdurdod Archwilio ar gyfer Dyddiad Cau 8 | <p>12 hanner dydd</p> <p>Dydd Llun 5 Medi 2016</p> |
| 20. | <p>Dyddiad Cau 10</p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar ymatebion i gais yr Awdurdod Archwilio am ragor o wybodaeth o dan Reol 17 yn y llythyr dyddiedig 26 Awst 2016 • Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach a dderbynnir gan yr Awdurdod Archwilio ar gyfer Dyddiad Cau 9 | <p>12 hanner Dydd</p> <p>Gwener Dydd Iau 8 Medi 2016</p> |
| 21. | <p>Mae'r Awdurdod Archwilio (AA) o dan ddyletswydd i gwblhau'r archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol.</p> | <p>Dydd Iau 8 Medi 2016</p> |